**CYNGOR CAERDYDD**

**COFNODION**

**CYFARFOD Y CABINET 23 TACHWEDD 2023**

| | |
|---|---|
| Yn Bresennol | Y Cynghorydd Huw Thomas (Arweinydd)<br>Y Cynghorwyr Peter Bradbury/ Julie Sangani (rhannu swydd)<br>Y Cynghorydd Jen Burke<br>Y Cynghorydd Dan De'Ath<br>Y Cynghorydd Russell Goodway<br>Y Cynghorwyr Norma Mackie/ Ash Lister (rhannu swydd)<br>Y Cynghorydd Sarah Merry<br>Y Cynghorydd Lynda Thorne<br>Y Cynghorydd Chris Weaver<br>Y Cynghorydd Caro Wild |
| Arsylwyr: | Y Cynghorydd John Lancaster<br>Y Cynghorydd Rodney Berman |
| Hefyd: | |
| Swyddogion: | Paul Orders, Prif Weithredwr<br>Chris Lee, Swyddog Adran 151<br>Debbie Marles, Swyddog Monitro<br>Claire Deguara, Swyddfa'r Cabinet |
| Ymddiheuriadau: | |

**COFNODION CYFARFOD Y CABINET AR 19 HYDREF 2023**

Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 19 Hydref 2023.

**MONITRO CYLLIDEB - ADRODDIAD 6 MIS**

***Cylchredwyd llythyr gan y Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad.***

Ystyriodd y Cabinet adroddiad monitro'r gyllideb mis 6 ar gyfer 2023/24. Mae'r adroddiad yn rhoi manylion sefyllfa monitro ariannol ragamcanol 2023/24 i'r Cabinet ar ddiwedd mis Medi 2023 (mis 6).

Nodwyd bod y sefyllfa monitro gyffredinol ym Mis 6 yn adlewyrchu cyfanswm gorwariant blynyddol net y Cyngor o £5.388 miliwn. Manylir ar hyn yn Atodiad 1 i'r adroddiad ac mae'n cynnwys cyfanswm gorwariant net y gyfarwyddiaeth o £7.688

miliwn, wedi'i wrthbwyso'n rhannol gan danwariant yn erbyn y gyllideb ariannu cyfalaf o £1.500 miliwn a chan ryddhau arian wrth gefn ar gyfer Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.

Nodwyd gorwariant oherwydd pwysau'r gyllideb yn y meysydd canlynol –

- Datblygu Economaidd - yn bennaf oherwydd diffyg incwm o fewn Diwylliant, Lleoliadau a Digwyddiadau a phwysau o fewn Gwasanaethau Eiddo, wedi'u gwrthbwyso'n rhannol gan warged yn yr Uned Masnachu Gwasanaethau Adeiladu.

- Addysg – nodwyd pwysau ym maes Trafnidiaeth Ysgol, Lleoliadau y Tu Allan i'r Sir ac Arlwyo. Mewn perthynas â Phrydau Ysgol Am Ddim Cyffredinol, mae ansicrwydd wedi cael ei liniaru drwy dynnu £1 miliwn o gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi.

- Gwasanaethau Plant – mae'r gorwariant yn bennaf oherwydd costau lleoliadau plant yr awdurdod sy'n derbyn gofal gyda phwysau galw parhaus a chynnydd mewn prisiau gan arwain at gostau sy'n fwy na'r gyllideb.

Cyfeiriwyd at lithriad mewn prosiectau; nodwyd bod amrywiaeth o resymau dros hyn, gan gynnwys costau uwch sy'n gofyn am beirianneg gwerth. Mae hyn yn ei dro yn creu oedi a phwysau chwyddiant dilynol, sy'n amlygu'r hinsawdd ariannol heriol.

Wrth gyfeirio at y broses o bennu'r gyllideb, nodwyd bod y Cabinet yn ymwybodol o'r heriau sy'n gysylltiedig â chynllunio cyllideb a chyflawni arbedion a bydd yn ystyried sut y gellir dod â chywirdeb pellach i'r broses fodelu i roi mwy o hyder ar y gallu i gyflawni.

PENDERFYNWYD:

1. nodi'r alldro ariannol refeniw seiliedig ar y sefyllfa ragamcanol ym Mis 6 2023/24.

2. nodi'r gwariant cyfalaf a'r sefyllfa ragamcanol ym Mis 6 2023/24.

**STRATEGAETH ARIANNU ARENA DAN DO**

***Nid yw Atodiadau 1 a 2 i'r adroddiad hwn i'w cyhoeddi am eu bod yn cynnwys gwybodaeth wedi ei heithrio yn unol â'r disgrifiad a geir ym mharagraffau 14 a 16 rhan 4 a pharagraff 21 rhan 5 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.***

***Dosbarthwyd llythyrau cyhoeddus a chyfrinachol gan Bwyllgor Craffu'r Economi a Diwylliant.***

Daeth adroddiad i law y Cabinet yn gofyn am gytundeb i'r strategaeth ariannu ar gyfer y prosiect Arena Dan Do newydd, ac yn ceisio awdurdod i ymrwymo a gweithredu cyfres o gytundebau cyfreithiol y CDaCh a gymeradwywyd yn flaenorol

gan y Cabinet ym mis Gorffennaf 2023. Amlygwyd y manteision economaidd y bydd yr arena newydd yn eu cyflwyno i Gaerdydd.

Mae'r adroddiad yn amlygu, oherwydd pwysau chwyddiant, bod cost yr Arena Dan Do newydd wedi cynyddu o £180m i £280m; bydd consortiwm Live Nation yn cymryd cyfrifoldeb llawn am y costau ychwanegol hyn. Mae consortiwm Live Nation wedi gweithio i leihau lefel y cynnydd mewn costau drwy adolygu dyluniad yr Arena ac ailystyried gofynion seilwaith y safle.

Nodwyd bod y cynllun bellach wedi'i ddatblygu i Gam 3 RIBA, gan gynnwys cynlluniau wedi’u costio, sy'n nodi bod y cynllun bellach o fewn amlen fforddiadwyedd diwygiedig consortiwm Live Nation, a heb unrhyw gyfraniadau ariannol ychwanegol gan y Cyngor.

Wedi’i atodi i'r adroddiad mae adroddiad gan Ymgynghorwyr Trysorlys y Cyngor (DOLEN). Mae'r adroddiad yn nodi'r rhagolygon economaidd a rhagolygon y gyfradd llog, gofyniad ariannu cyfalaf cyfredol yr Awdurdod, y polisi benthyca a’r opsiynau sydd ar gael, materion cyfrifyddu a statudol i'w hystyried a senarios modelu ariannol.

Mae'r strategaeth ariannu arfaethedig yn canolbwyntio ar drefniadau benthyca dros dro yn ystod cyfnod adeiladu tair blynedd yr Arena tra bo'r Cyngor yn parhau i fonitro'r farchnad cyfraddau llog, gyda'r bwriad o lunio trefniant benthyca mwy hirdymor ar gyfradd llog sefydlog naill ai a) ar ôl i’r Arena agor a dod yn weithredol, neu b) ar y cyfryw adeg pan fydd y swyddog A151, yn ei farn broffesiynol, ac ar ôl ystyried y cyngor rheoli trysorlys diweddaraf, yn dod i'r casgliad mai ymrwymo i drefniadau cyllido hirdymor yw’r dewis mwyaf priodol a fforddiadwy i'r Cyngor.

Amlygwyd bod y strategaeth hon yn wahanol i opsiynau blaenorol a ystyriwyd, gan y byddai'n golygu bod y Cyngor yn cario risg cyfradd llog ar ôl arwyddo CDaCh ar gyfer yr Arena. Fodd bynnag, mae angen cydbwysedd rhwng sicrwydd cyfraddau a fforddiadwyedd os bodlonir Amlen Fforddiadwyedd yr Arena.

Amlygwyd egwyddorion allweddol y strategaeth ariannu i'r Aelodau gan dynnu sylw arbennig at yr adolygiadau lliniaru risg a cherrig milltir a fydd yn cael eu rhoi ar waith.

PENDERFYNWYD:

1) cymeradwyo Strategaeth Ariannu’r Arena Dan Do fel y nodir yn yr adroddiad hwn ac yn fwy manwl yn **Atodiad cyfrinachol 2.**

2) awdurdodi mynediad a gweithrediad y Cytundeb Datblygu a Chyllido (CDaCh) a gymeradwywyd yn flaenorol gan y Cabinet ym mis Gorffennaf 2023, ac wrth wneud hynny gymeradwyo unrhyw ddiwygiadau i'r ddogfennaeth gyfreithiol fel y bo'n angenrheidiol, am resymau gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i sicrhau cysondeb rhyngddynt a chwblhau unrhyw feysydd sy'n weddill o weithredoedd a dogfennau pellach sy'n ategol i'r dogfennau cyfreithiol a gymeradwywyd; yn amodol ar ymgynghori â’r Swyddog A151 a Swyddogion Cyfreithiol.

3) nodi y bydd goblygiadau ariannol perthnasol, yn amodol ar ymrwymo i CDaCh gyda Datblygwr/Gweithredwr yr Arena a chymeradwyaeth y Cabinet am Achos Busnes Maes Parcio Aml-lawr mewn cyfarfod yn y dyfodol, yn cael eu diweddaru yn y Cynlluniau Ariannol Tymor Canolig, Strategaethau Cyfalaf a Rheoli'r Trysorlys i fod yn gyson â'r strategaeth ariannu hon, i ffurfio amlen fforddiadwyedd ddiwygiedig.

4) nodi bod Gweithgareddau Rheoli'r Trysorlys yn cael eu dirprwyo i'r Swyddog A151 a bydd gweithredu ac adolygu'r strategaeth ariannu hon fel rhan o'r diweddariadau blynyddol i'r strategaeth a'r pwyntiau gwirio mewn perthynas â'r prosiect hwn yn benodol fel rhan o adolygiad ar ôl y prosiect.

**AILGOMISIYNU CONTRACT Y GWASANAETH CYNGHORI**

Ystyriodd y Cabinet adroddiad ynghylch ailgomisiynu contract y Gwasanaeth Cynghori. Mae'r adroddiad yn nodi'r trefniadau caffael arfaethedig ar gyfer y contract gwasanaethau cynghori o 1 Ebrill 2024.

Mae'r adroddiad yn manylu ar y gwasanaethau cynghori a ddarperir gan yr awdurdod lleol ac yn nodi'r trefniadau caffael presennol ac arfaethedig. Tynnwyd sylw at yr ymgynghoriad a gynhaliwyd gyda'r sector. Yn dilyn digwyddiad ymgynghori, bydd system atgyfeirio newydd yn cael ei rhoi ar waith ochr yn ochr â system brysbennu wedi'i hadnewyddu i sicrhau bod cwsmeriaid yn cael eu cyfeirio at y lefel gywir o wasanaeth y tro cyntaf.

PENDERFYNWYD:

1. cymeradwyo'r dull trosfwaol ar gyfer caffael darpariaeth y Gwasanaeth Cynghori allanol.

2. dirprwyo awdurdod i Gyfarwyddwr Oedolion, Tai a Chymunedau, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet â chyfrifoldeb dros Drechu Tlodi, Cydraddoldeb ac Iechyd y Cyhoedd, i bennu pob agwedd ar y broses gaffael (gan gynnwys pennu'r meini prawf gwerthuso i'w defnyddio, dechrau'r broses gaffael, dyfarnu'r contractau a'r holl faterion ategol sy'n ymwneud â chaffael).

**CYFLAWNI CYNNIG GWAITH IEUENCTID CYNALIADWY I GAERDYDD**

***Dosbarthwyd llythyr gan Bwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc i'r Aelodau.***

Daeth adroddiad i law y Cabinet yn nodi'r cynigion i ddarparu cynnig gwaith ieuenctid cynaliadwy i Gaerdydd. Mae'r adroddiad yn dilyn Adolygiad Gwasanaeth Ieuenctid Caerdydd yn 2022 ac yn tynnu ar yr argymhellion sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad yr adolygiad i sicrhau bod cynnig y Gwasanaeth Ieuenctid yng Nghaerdydd yn gynaliadwy.

Nodwyd y galwadau ar y gwasanaeth ar ôl y pandemig o ystyried y dirywiad a adroddwyd yn iechyd meddwl a lles pobl ifanc, cynnydd mewn tlodi a heriau cymdeithasol parhaus eraill.

Tynnwyd sylw at y modd y caiff y gwasanaeth ei ariannu; nodwyd bod cyllid wedi bod yn heriol oherwydd yr hinsawdd economaidd, fodd bynnag, llongyfarchwyd ymdrechion y timau gan fod cyflawni mewn hinsawdd o'r fath wedi bod yn heriol. Amlygwyd bod cyllid y CFfG wedi rhoi rhywfaint o sefydlogrwydd ac, o ystyried y rhagolygon ariannol hynod heriol, y byddai trafodaethau ar drefniadau ariannu'r gwasanaeth yn y dyfodol yn digwydd fel rhan o'r broses gyllidebol.

Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at y cynigion ar gyfer newid a'r weledigaeth a'r model gweithredu yn y dyfodol. Mae hyn er mwyn datblygu timau ardal cryf i ymateb i anghenion unigryw'r cymunedau unigol y maent yn eu gwasanaethu. Nodwyd y bydd y timau ardal yn yr ardaloedd o amddifadedd uchaf, fodd bynnag, bydd lefel o ddarpariaeth gyffredinol ar gael.

PENDERFYNWYD:

1. cytuno ar weledigaeth, egwyddorion a model gweithredu newydd ar gyfer Gwasanaeth Ieuenctid Caerdydd.

2. cymeradwyo’r y ffocws arfaethedig ar weithio yn lleol, i gryfhau ac integreiddio disgyblaethau gwaith ieuenctid mewn ardal leol, gan sicrhau bod timau'n ymateb i anghenion y gymuned y maent yn ei gwasanaethu.

3. nodi y bydd y Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes yn darparu diweddariadau i'r Aelod(au) Cabinet perthnasol ar gyflawni'r camau gweithredu a nodwyd yn yr adroddiad, gan gynnwys sicrwydd bod adnoddau'n cael eu blaenoriaethu'n briodol i fynd i'r afael ag anghenion y plant a'r bobl ifanc mwyaf agored i niwed ac sydd yn y mwyaf o berygl.

4. nodi y bydd uwch reolwyr yn darparu diweddariadau i'r Aelod(au) Cabinet perthnasol ar y gwaith sy'n cael ei wneud i integreiddio Gwasanaeth Ieuenctid Caerdydd yn fwy effeithiol gyda gwasanaethau ehangach i bobl ifanc.